Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod y Bwrdd Llywodraeth Cymru: 1 Tachwedd 2024

Agenda a phapurau cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 01 Tachwedd 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Ionawr 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 7 Ionawr 2025

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Yn bresennol** (https://www.llyw.cymru#162086)

**Croeso** (https://www.llyw.cymru#162088)

**Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd** (https://www.llyw.cymru#162090)

**Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg** (https://www.llyw.cymru#162092)

**Cerdyn Sgorio Cytbwys 2024/25** (https://www.llyw.cymru#162094)

**Diweddariad ariannol** (https://www.llyw.cymru#162096)

**Unrhyw fater arall** (https://www.llyw.cymru#162098)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Yn bresennol

- Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Carys Williams
- Mutale Merrill
- Aled Edwards
- Mike Usher
- Tim Moss
- Tracey Burke
- Sioned Evans
- David Richards
- Nia James
- Dean Medcraft
- Amelia John
- Cynrychiolydd Ochr yr Undebau Llafur
- Cyd-gadeirydd y Bwrdd Cysgodol
- Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y Bwrdd

# Yn mynychu

- Dylan Hughes
- Matt Denham-Jones
- Y Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi Corfforaethol
- Prif Swyddog Ymchwil - Perfformiad Corfforaetho
- Pennaeth Rhaglen Gwella'r Gymraeg

# Ysgrifenyddiaeth

- Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ymddiheuriadau

- Judith Paget
- Andrew Slade

# 1. Croeso/Materion cyfredol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau a gafwyd. Cafodd cofnodion 20 Medi eu cymeradwyo yn amodol ar fân ddiwygiad.

1.2 Soniodd y Cadeirydd am ei gyfarfod diweddar â chynrychiolwyr cenedlaethol Ochr yr Undebau Llafur.

1.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau'r Bwrdd at Gyfrifon Cyfunol 2023/24 (PTN04). Gofynnodd Carys Williams am sicrwydd ynghylch canlyniadau diffyg cydymffurfio â pholisïau/gweithdrefnau a nodwyd gan archwiliadau o gyrff y GIG y cyfeirir atynt yn y cyfrifon. Ymatebodd Matt Denham-Jones.

1.4 Nododd y Cadeirydd anerchiad diweddar y Prif Weinidog i staff. Tynnodd Cyd-gadeirydd y Bwrdd Cysgodol sylw at bryderon staff ynghylch negeseuon ynglŷn â gweithio hybrid. Atgoffodd Amelia John y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru yn sefydliad gwasgaredig sydd â swyddfeydd ledled Cymru. Nododd cynrychiolydd Ochr yr Undebau Llafur y dehongliadau gwahanol o weithio hybrid a'r negeseuon gan Lywodraeth y DU ynglŷn â phresenoldeb yn y swyddfa a'r gwasanaeth sifil.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 2. Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd – yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma ac edrych ymlaen at amcan 2050

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Dylan Hughes a Phennaeth Rhaglen Gwella'r Gymraeg i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod pedair blynedd gyntaf strategaeth Llywodraeth Cymru ar ei defnydd mewnol o'r Gymraeg, 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd.', a'r dull o baratoi ail gylch 5 mlynedd y strategaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 a 2030.

2.2 Nododd Sioned Evans y berthynas waith dda gyda Chomisiynydd y Gymraeg a dywedodd y dylid bod yn fwy mentrus o ran dyheadau'r sefydliad ar gyfer sgiliau Cymraeg ei staff.

2.3 Gofynnodd Dom Houlihan beth oedd y ffordd orau o gefnogi'r aelodau staff hynny sy'n teimlo na allant ddysgu iaith ychwanegol am resymau personol a nododd y gwrthdaro posibl rhwng gwahanol strategaethau sefydliadol. Roedd Amelia John yn cytuno, gan nodi pryderon a godwyd gan staff ag anableddau. Dywedodd ei bod yn bwysig ystyried hawliau iaith yn rhan o drafodaethau ar gydraddoldebau.

2.4 Gofynnodd Tim Moss i ba raddau y gallai technoleg gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais a gofynnodd Dom beth oedd y ffordd orau o hybu gwasanaethau cyfieithu'r sefydliad.

2.5 Atgoffodd Aled Edwards y Bwrdd o'r llwybrau deddfwriaethol a oedd wedi arwain at y sefyllfa bresennol ac roedd o blaid ymagwedd fwy cadarnhaol at y Gymraeg gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chydraddoldebau.

2.6 Diolchodd David Richards i Dylan Hughes am ei waith yn y maes hwn, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

nodi bod hynny ar ben ei rôl fel y Prif Gwnsler Deddfwriaethol.

2.7 Nododd Carys Williams yr her bosibl i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wrth weithio drwy gyfrwng y Saesneg ac awgrymodd y dylid ystyried y mater hwn.

2.8 Nododd Cyd-gadeirydd y Bwrdd Cysgodol fod y Gymraeg yn rhan o natur groestoriadol y sefydliad a soniodd am frwdfrydedd enfawr aelodau staff dros y Gymraeg a'r adborth cadarnhaol ar yr hyfforddiant a gynigir iddynt.

2.9 Croesawodd Mutale Merrill y papur, gan nodi bod dysgu Cymraeg yn cynnig cyfle i gysylltu â'r gymuned ehangach.

2.10 Soniodd Tracey Burke am sut y mae Llywodraeth Iwerddon yn gweithredu o ran sgiliau yn yr Wyddeleg a'i haelodau staff.

2.11 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a nododd fod y Bwrdd wedi ailddatgan ei ymrwymiad a'i gefnogaeth i'r strategaeth. Nododd y dull a gynigir ar gyfer ail gyfnod y strategaeth, ar y cyd â strategaeth pobl Llywodraeth Cymru.

# 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn eu tro i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol y mae eu Grwpiau yn delio â nhw neu'n disgwyl delio â nhw dros y misoedd nesaf.

3.2 Nododd Aled Edwards her cydbwyso newid cynaliadwy â chyflawni nodau tymor byr a phwysleisiodd yr angen i fod yn ymwybodol o'r risg o ganlyniadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

anfwriadol. Nododd Aled y gwaith blaenllaw yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gefnogi'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin.

3.3 Gofynnodd Carys Williams beth yw'r ffordd orau i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gefnogi Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u timau. Mewn ymateb, nododd Tracy Burke y rôl y mae dod ag eitemau at sylw'r Bwrdd yn ei chwarae o ran rhoi cyfle i GyfarwyddwyrCyffredinol gymryd amser i ystyried materion.

3.4 Pwysleisiodd Cyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol yr angen am eglurder gan Weinidogion ynglŷn â'u blaenoriaethau.

3.5 Nododd cynrychiolydd Ochr yr Undebau Llafur werth y cyfarfodydd Partneriaeth Gymdeithasol o ran rhoi cyfle i gael trafodaethau agored a gonest ar faterion.

## 4. Cerdyn Sgorio Cytbwys 2024/25 - adroddiad Chwarter 2

4.1 Gwnaeth y Bwrdd ystyried yr adroddiad perfformiad ar fetrigau allweddol yn ystod mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi (Ch2) ym mlwyddyn ariannol 2024/25, sef yr adroddiad perfformiad cyntaf i ddefnyddio'r dull cerdyn sgorio cytbwys newydd.

4.2 Nododd y Bwrdd y meysydd hynny y mae'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo) wedi'u nodi ar gyfer gweithredu.

4.3 Croesawodd Mike Usher y cynnydd a wnaed o ran y cerdyn sgorio cytbwys a'r ffocws ar welliant parhaus. Cytunodd Carys a Mutale, gan awgrymu tynnu sylw at lwyddiannau.

4.4 Gwnaeth Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol awgrymu defnyddio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ffynhonnell dangosyddion.

4.5 Diolchodd y Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi Corfforaethol i bawb am eu hadborth a nododd fod y cerdyn sgorio cytbwys yn ategu ffynonellau data eraill fel yr Arolwg Pobl blynyddol.

## 5. Diweddariad ariannol – cyfnod 6

5.1 Rhoddodd Dean Medcraft ddiweddariad i'r Bwrdd am y sefyllfa gyllid yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ragolygon a gyflwynwyd gan Benaethiaid Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024 (cyfnod 6) yn erbyn y cyllidebau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 fel y'u haddaswyd er mwyn i newidiadau cymeradwy gael eu cynnwys mewn cyllideb yn y dyfodol. Nid oedd y diweddariad yn cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Gymru yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 30 Hydref.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-1-tachwedd-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).